**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (RHAN O CRAWSHAY STREET A RHAN O PERCY STREET, CAERDYDD) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r priffyrdd. Nid awdurdodir cau'r priffyrdd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Caerdydd ar 12 Gorffennaf 2018 o dan y cyfeirnod 18/00735/MJR ar y cyd â'r cymeradwyaethau ar gyfer diwygiadau ansylweddol o dan y rhif cyfeirnod 19/03171/MJR a roddwyd ar 10 Mawrth 2020, 23/01336/NMA a roddwyd ar 18 Gorffennaf 2023 a 23/01627/NMA a roddwyd ar 11 Awst 2023 ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Rhan o Crawshay Street a Rhan o Percy Street, Caerdydd) 2024 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd, Yr Aes, Caerdydd CF10 1FL yn ystod oriau swyddfa arferol o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2039214.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 21 Mehefin 2024 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (PART OF CRAWSHAY STREET AND PART OF PERCY STREET, CARDIFF) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with outline planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Cardiff County Council on 12 July 2018 with reference 18/00735/MJR accompanied by the non-material amendment approvals with reference number 19/03171/MJR granted on 10 March 2020, 23/01336/NMA granted on 18 July 2023 and 23/01627/NMA granted on 11 August 2023 and described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Part of Crawshay Street and Part of Percy Street, Cardiff) Order 2024 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours from Monday to Saturday at Cardiff Central Library, The Hayes, Cardiff CF10 1FL, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA2039214.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 21 June 2024 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch,**

**Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**<u>Y darnau o briffordd sydd i'w cau</u>**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ym mhen gogleddol Percy Street, Caerdydd, sy'n 31.4 o fetrau yn y man hiraf ac yn 18.1 o fetrau yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ac a labelir ag 'A' ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ym mhen gogleddol Crawshay Street, Caerdydd, sy'n 1.2 o fetrau yn y man hiraf ac yn 10.1 o fetrau yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ac a labelir â 'B' ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**<u>Y Datblygiad</u>**

Ailddatblygu hen safle Bragdy Brains yn Crawshay Street, Caerdydd CF10 5DS i ddarparu adeilad swyddfa, campfa ategol, marchnadle/unedau manwerthu ac unedau bwyd a diod, maes parcio aml-lawr â defnydd manwerthu ategol a thir, mynediad, draenio a gwaith seilwaith arall i gyflawni cam 1 Cei Canolog.

**Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**
**<u>Lengths of highway to be stopped up</u>**

1. An irregular-shaped of highway located at the northern end of Percy Street, Cardiff, with a maximum length of 31.4 metres and a maximum width of 18.1 metres, marked with zebra hatching and labelled 'A' on the deposited plan.

2. An irregular-shaped of highway located at the northern end of Crawshay Street, Cardiff, with a maximum length of 1.2 metres and a maximum width of 10.1 metres, marked with zebra hatching and labelled 'B' on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**<u>The Development</u>**

Re-development of the former Brains Brewery site at Crawshay Street, Cardiff CF10 5DS to provide an office building, ancillary gym, market place/retail and food and drink units, a multi storey car park with ancillary retail use and realm, access, drainage and other infrastructure works for the delivery of Central Quay phase 1.